# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Sultans Hair & Beauty Salon

Dyddiad yr arolygiad: 14 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy:


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **agic@llyw.cymru**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



978-1-80364-466-0



© Hawlfraint y Goron 2022

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

Ansawdd profiad y claf ........ 9

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 14

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 21

4. Beth nesaf? ........ 24

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ........ 25

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 26

Atodiad B – Cynllun gwella ........ 27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

# Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

# Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

| | |
|---|---|
| Rhoi sicrwydd: | Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal |
| Hybu gwelliant: | Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da |
| Dylanwadu ar bolisïau a safonau: | Defnyddio’r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Sultans Hair & Beauty Salon ar 14 Mawrth 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ni chawsom ein sicrhau bod Sultans Hair & Beauty Salon yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas ar gyfer darparu triniaethau golau pwls dwys. Mae hyn oherwydd nad oedd gan y rheolwr cofrestredig yr holl wybodaeth ofynnol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Nid oedd unrhyw gontract gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau i ddarparu cyngor arbenigol ar ddiogelwch y peiriant golau pwls dwys a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd.

Roedd ychydig o hyfforddiant wedi dod i ben ac mae angen ei ddiweddaru, yn benodol Craidd Gwybodaeth.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw dan glo er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y gwasanaeth systemau digonol ar waith i ddangos ei fod yn darparu gofal diogel a dibynadwy ac nid oedd yn bodloni'r safonau a rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo
- Roedd y man triniaethau yn ymddangos yn lân ac yn daclus ar ddiwrnod yr arolygiad

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Mae angen gwella cofnodion cleifion trwy gofnodi gwybodaeth hanes meddygol a'i llofnodi ym mhob apwyntiad, gan y claf a'r gweithredwr golau pwls dwys

- Mae angen i gofnodion cleifion gofnodi gwybodaeth am y math o groen a gwallt, ynghyd â chanlyniad y prawf clytiau

- Nid oedd tystiolaeth bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu ac nid oedd arwyddion allanfeydd tân gweladwy yn yr adeilad

- Nid oedd unrhyw gontract gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau i ddarparu cyngor arbenigol ar ddiogelwch y peiriant golau pwls dwys a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd

- Rhaid rhoi gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith

- Nid oedd unrhyw bolisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu / ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad

- Mae angen diweddaru hyfforddiant, yn benodol Craidd Gwybodaeth a diogelu

Gweler Atodiad A am yr holl feysydd yr ydym wedi gofyn i'r gwasanaeth fynd i'r afael â nhw.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac wedi arwain at ddyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar ddiwedd cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol o'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol.

At hynny, gan ystyried maint a nifer y meysydd o ddiffyg cydymffurfio, penderfynodd AGIC atal cofrestriad Sultans Hair & Beauty hyd nes y bydd AGIC yn cael ei sicrhau bod yr holl gamau unioni wedi'u cwblhau a bod systemau a phrosesau wedi'u rhoi ar waith i atal hyn rhag digwydd eto.

Cwblhaodd AGIC ymweliad dilynol lle rhoddwyd rhybudd â Sultans Hair & Beauty ar 7 Mehefin 2022. Gwelsom nad oedd yr argymhellion a wnaed ym mis Mawrth wedi'u cwblhau a/neu nad oeddent ar waith ac ar gael yn y lleoliad. Yn benodol, nid oedd hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau. Nid oedd yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i fod ar waith gan y rheoliadau ar gael.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Sultans Hair & Beauty Salon wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu gwasanaethau golau pwls dwys yn 3 St Martins Row, Albany Road, Caerdydd, CF24 3RP.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 1 Mai 2019.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar gweithiwr; un ohonynt yw'r gweithredwr golau pwls dwys.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau cael gwared â gwallt ac adnewyddu croen i bobl dros 18 oed.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom nifer o feysydd lle roedd profiad y claf yn cael ei beryglu ac mae angen gwella'r rhain.

Mae maint sylweddol o'r wybodaeth a roddir i gleifion ar lafar. Nid oedd nodiadau cleifion yn adlewyrchu gwybodaeth am y prawf clytiau a'r math o wallt a chroen. Nid oedd cofnodion hanes meddygol yn dangos eu bod wedi cael eu gwirio ym mhob apwyntiad, na'u llofnodi a'u dyddio gan y staff a'r claf.

Nid yw'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion ynghylch gofal cyn ac ar ôl triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd y trefniadau sydd ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod triniaethau yn cael eu peryglu oherwydd nad oedd clo ar y drws. Er y dywedwyd wrthym fod y staff yn deall i beidio â mynd i mewn i'r ystafell pan fydd y drws ar gau, mae'r dull hwn yn peryglu diogelwch pawb.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai dim ond un holiadur a gwblhawyd gan glaf a oedd wedi cael triniaeth golau pwls dwys. Cwblhawyd yr holiaduron eraill gan gleientiaid nad oeddent yn derbyn gwasanaethau golau pwls dwys.

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn, gyda'r cleifion yn sgorio'r gofal a'r driniaeth a roddwyd iddynt fel rhagorol neu dda iawn.

Ni wnaed unrhyw sylwadau gan y cleifion ar yr holiaduron wedi'u cwblhau a dderbyniwyd.

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn llenwi ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgynghoriad cychwynnol. Ar gyfer pob apwyntiad ychwanegol, defnyddir yr un ffurflen; bydd y claf yn adolygu ei statws hanes meddygol gwreiddiol a dywedwyd wrthym y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu nodi yn adran sylwadau'r ffurflen.

O'r pum cofnod claf y gwnaethom eu hadolygu, nid oedd gan un ohonynt unrhyw newidiadau wedi'u dogfennu i'w hanes meddygol ac nid oedd llofnod ychwanegol gan y cleient na'r staff i ddangos bod adolygiad o'r wybodaeth hon wedi'i gwblhau. Ar gyfer pob apwyntiad, argymhellir bod y cleifion a'r staff yn llofnodi ac yn dyddio'r ffurflen gydsynio i ddangos yn glir bod y wybodaeth wedi'i gwirio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod bob amser yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu'n cael gwiriad o'i hanes meddygol, cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth hanes meddygol bob amser yn cael ei dogfennu a'i llofnodi gan y claf a'r gweithredwr golau pwls dwys ym mhob apwyntiad.

### Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan y rheolwr cofrestredig, ac yn teimlo ei fod bob amser yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wyleidd-dra ei hun yn ystod ei apwyntiadau.

Dywedodd y staff wrthym fod yr ystafell yn cael ei gwagio pan fydd yn berthnasol os oes angen i'r claf newid / dynnu dillad ac y byddai tywel urddas yn cael ei ddarparu.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd clo ar ddrws yr ystafell driniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod cydweithwyr yn gwybod i beidio â mynd i mewn pan fydd drws ar gau. Fodd bynnag, heb glo ar y drws, mae'r potensial i effeithio'n negyddol ar urddas claf ac achosi niwed wrth ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys yn cynyddu'n fawr.

Yn dilyn yr archwiliad, mae lluniau wedi'u hanfon yn dangos bod clo bellach wedi'i ychwanegu at y drws.

Cynhelir ymgynghoriadau â'r cleifion yn yr ystafell driniaeth i sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb gael ei chlywed gan bobl eraill.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd unrhyw hebryngwyr yn bresennol am gymorth yn ystod sesiynau triniaeth.

### Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn eu triniaeth golau pwls dwys a chytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael iddynt a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt dderbyn y driniaeth.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn ofynnol iddo lofnodi ffurflen gydsynio i ddangos ei fod yn deall y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Cyfathrebu’n effeithiol

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedodd deg o'r 13 o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a’u bod yn teimlo eu bod wedi cymryd rhan cymaint ag yr oeddent am fod mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Ar adeg yr ymweliad, nid oedd datganiad o ddiben[1] neu ganllaw i gleifion ar gael. Mae'n ofynnol gan y rheoliadau bod y dogfennau hyn ar gael ac yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth a'r triniaethau a gynigir.

Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd dau ganllaw i gleifion. Mae'r canllaw i gleifion a gwblhawyd gan ddefnyddio templed AGIC yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae angen i'r rheolwr cofrestredig

[1] Dogfen sy'n ofynnol dan y gyfraith yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

gadarnhau pa fersiwn y mae'r lleoliad yn ei defnyddio ac yn ei darparu i'r cleifion. Os defnyddir y ddogfen arall, bydd angen ei diweddaru i gynnwys sut y gall y cleifion gael copi o'r adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer y gwasanaeth. Hefyd, nid oedd y fersiwn hon wedi'i dyddio i roi tystiolaeth pan gafodd ei hadolygu ddiwethaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddrafftio datganiad o ddiben. Mae angen i'r ddogfen gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau a bod ar gael i'r cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau pa ganllaw i gleifion sy'n cael ei ddefnyddio a'i ddarparu i'r cleifion.

## Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yn rhaid i'r cleifion gytuno i gael prawf clytiau cyn cael triniaeth er mwyn pennu gosodiad diogel ac effeithiol o'r golau pwls dwys ar gyfer eu math o groen a gwallt. Cadarnhaodd pob un heblaw am un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf clytiau cyn iddynt dderbyn triniaeth.

Dywedodd pob un o’r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ynghylch sut i atal heintiau a chynorthwyo gwelliant ar ôl eu triniaeth.

Gwnaethom archwilio cofnodion pum claf a chanfod nad oedd y cofnodion yn dogfennu prawf clytiau'r claf na'i fath o groen a gwallt. Felly, ni chawsom ein sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cadw i safon dda, sy'n golygu nad oedd gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu gan ystyried diogelwch a llesiant y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ôl-ofal yn cael ei darparu ar lafar i'r cleifion. Nid oedd hyn wedi'i ddogfennu yn nodiadau'r cleifion y gwnaethom eu hadolygu, ac ni ddarparwyd taflen ôl-ofal ysgrifenedig ychwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prawf clytiau a'r math o wallt a chroen wedi'u dogfennu'n glir ar nodiadau'r cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth a'u hôl-ofal er mwyn sicrhau y gellir rheoli unrhyw

adweithiau niweidiol ac er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r driniaeth.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gellir cyrraedd Sultans Hair & Beauty Salon trwy ddringo un gris oddi ar y stryd. Nid yw'r ystafell a ddefnyddir ar gyfer triniaethau golau pwls dwys yn hygyrch i unrhyw un sy'n defnyddio cymorth symudedd.

Nid oedd unrhyw bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, nac unrhyw ddogfennau ynghylch sut mae'r staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddrafftio polisïau a gweithdrefnau i ddangos sut mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo o fewn y sefydliad a sut mae'r cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried diweddaru ei gwefan gyda gwybodaeth am sut y gall y cleifion gael mynediad at wasanaethau yn y salon a'u defnyddio, a ddylai gynnwys mynediad i'r adeilad.

## Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym y gall y cleifion adael adolygiadau am y gwasanaeth trwy ei dudalen Facebook ac adolygiadau Google. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion presennol a darpar gleifion yn cael gwybod am ansawdd y gofal a ddarperir gan y salon. Dywedodd y rheolwr nad yw erioed wedi cael unrhyw adborth am y gwasanaeth golau pwls dwys, ond gall y cleifion adael adolygiadau gan ddefnyddio'r fforymau a restrir uchod.

Dywedodd y rheolwr wrthym y bydd yn adolygu unrhyw adolygiadau ar-lein yn rheolaidd ac yn ymateb yn briodol, ond nid oedd unrhyw ddadansoddiad wedi'i gwblhau fel ffordd o nodi'r meysydd a oedd yn gweithio'n dda, yn ogystal â defnyddio'r data i amlygu lle gallai fod angen newidiadau i wella'r gwasanaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o gael adborth am y gwasanaethau golau pwls dwys a ddarperir er mwyn pennu beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallai fod angen ei wella.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Nid oedd safonau a rheoliadau perthnasol yn cael eu bodloni i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig.

Nid oedd unrhyw systemau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Nid oedd unrhyw gontract gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau i ddarparu cyngor arbenigol ar ddiogelwch y peiriant golau pwls dwys a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd.

Nid oedd gan y gwasanaeth systemau digonol ar waith i ddangos ei fod yn darparu gofal diogel a dibynadwy.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw dan glo er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ni allem gael ein sicrhau bod yr holl drefniadau cynnal a chadw a ddylai fod ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r safle ar waith. Mae hyn oherwydd nad oedd unrhyw ddogfennau ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Y trefniadau sydd ar waith i amddiffyn y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r salon pe bai tân oedd dau ddiffoddwr tân. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi cael eu gwasanaethu ac ni allem fod yn sicr bod yr offer hyn yn gweithio'n iawn.

Nid oedd asesiad risg tân, nid oedd tystiolaeth bod ymarferion tân wedi'u cynnal, ac nid oedd arwyddion allanfeydd tân yn eu lle.

Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd asesiad risg tân. Mae'r ddogfen yn cadarnhau bod y diffoddwyr tân wedi cael eu profi ac y bydd yr asesiad risg a hyfforddiant staff yn cael eu diweddaru bob tri mis. Ni welsom dystiolaeth bod y camau hyn

wedi'u cymryd ac nid oes dyddiad ar yr asesiad risg tân. Rhaid cadw tystiolaeth o'r holl gamau gweithredu a gofnodwyd yn yr asesiad risg tân.

Nid oedd tystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd gwiriad gwifrau trydanol yr adeilad wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2022 ac roedd y dystysgrif yn dangos bod pob ardal yn foddhaol.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael a bod ei holl gynnwys o fewn ei ddyddiad. Gofynnwyd i'r staff gofnodi'r wybodaeth hon a gwirio'r pecyn fel ei fod yn parhau i fod yn ddiogel ac yn effeithiol i'w ddefnyddio.

Nid oedd unrhyw dystysgrifau i gadarnhau bod unrhyw staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac nid oedd unrhyw weithdrefn ysgrifenedig i'w dilyn mewn argyfwng. Rydym yn argymell y dylai'r staff ystyried mynychu cwrs cymorth cyntaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig wella'r trefniadau diogelwch tân yn y safle. Mae angen gosod arwyddion allanfa dân, mae angen gwasanaethu diffoddwyr tân i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio, a dylid trefnu ymarferion tân i sicrhau bod y staff a'r ymwelwyr yn gallu gadael yr adeilad yn ddiogel os bydd tân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg tân i sicrhau bod dyddiad ar y ddogfen. Rhaid darparu tystiolaeth o gamau gweithredu a gofnodir yn y ddogfen a'u cadw ar y safle.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar trydanol a ddefnyddir yn y salon wedi'i wirio a'i fod mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cwblhau cwrs cymorth cyntaf.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y safle'n lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau a ddilynir cyn ac ar ôl i glaf gael triniaeth golau pwls dwys. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi na gweithdrefn ar waith nac amserlenni glanhau i ddangos yr hyn a ddywedwyd

wrthym. Mae angen drafftio polisi atal a rheoli heintiau a dogfennu'n glir y gweithdrefnau y mae angen eu dilyn o ran trefniadau atal a rheoli heintiau yn y salon.

Yn ogystal, dylai'r staff ystyried sefydlu amserlen lanhau i ddangos y tasgau a gwblhawyd, gan bwy a phryd. Bydd hyn yn cefnogi'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a ddefnyddir yn y salon.

Cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw wastraff peryglus yr oedd angen ei waredu yn y salon.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig baratoi a gweithredu polisi rheoli heintiau sy'n dogfennu'n glir yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi amserlen lanhau ar waith a fydd yn rhoi tystiolaeth o’r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a ddilynir a’u cefnogi.

## Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru i drin cleifion sy'n 18 oed neu'n hŷn yn unig.

Nid oedd polisi diogelu ar gael ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, cyflwynwyd un ar ôl yr ymweliad arolygu. Nid oedd dyddiad ar y polisi ac mae angen ei ddiweddaru i gynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol perthnasol i sicrhau bod pryderon yn cael eu hadrodd yn briodol.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu, ond nid oedd ganddi unrhyw dystiolaeth i gadarnhau hyn.  Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod ei hyfforddiant diogelu yn gyfredol a bod tystysgrif yn cael ei chadw i ddangos hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod ganddi hyfforddiant diogelu cyfredol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisi diogelu a chynnwys manylion y tîm diogelu lleol a dyddiadau cyhoeddi ac adolygu'r polisi.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom nad oedd unrhyw drefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant laser yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Nid oedd protocol triniaeth ar waith yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel i'r cleifion. Mae angen i'r ddogfen hon gael ei goruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol fel sy’n ofynnol gan y rheoliadau.
- Nid oedd unrhyw gontract ar waith gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau i ddarparu cyngor arbenigol ar ddiogelwch y gwaith o osod y golau pwls dwys a’i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd.
- Nid oedd unrhyw reolau lleol cynhwysfawr[2] a ddatblygwyd gan gynghorydd amddiffyn rhag laserau ar waith, y mae'n rhaid iddynt roi manylion ar weithrediad diogel y peiriant golau pwls dwys a chael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig i ddangos ei bod yn ymwybodol ohonynt a'i bod yn cytuno i ddilyn y rheolau hyn.

Dywedwyd wrthym fod y peiriant golau pwls dwys wedi'i wasanaethu a'i raddnodi yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr i helpu i sicrhau ei fod yn perfformio'n gyson ac yn ôl y disgwyl. Nid oedd y dystysgrif wedi'i hanfon at y rheolwr cofrestredig ar adeg ein hymweliad. Felly, gofynnwn i gopi o'r dystysgrif gael ei hanfon at AGIC i gadarnhau canlyniad y gwasanaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon copi o'r dystysgrif ar ôl i'r peiriant golau pwls dwys gael ei wasanaethu.

---

[2] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â rheoli diogelwch laserau, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod hi wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[3] a hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant golau pwls dwys ar sut i'w weithredu'n ddiogel, yn unol â gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd[4] i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant golau pwls dwys. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif Craidd Gwybodaeth a arddangoswyd yn ddyddiedig Hydref 2013. Rydym yn argymell bod y cwrs Craidd Gwybodaeth yn cael ei ddiweddaru a bod tystiolaeth yn cael ei darparu i gadarnhau hyn. Yn ogystal, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau ei bod wedi derbyn hyfforddiant ar y peiriant golau pwls dwys gan y gwneuthurwr. Yn dilyn yr ymweliad, anfonwyd e-bost gan y gwneuthurwr a oedd yn nodi y dangoswyd i Sultans sut i ddefnyddio'r system golau pwls dwys yn 2014. Mae angen cadw'r wybodaeth hon ar y safle a bod ar gael i'w harolygu.

Gwelsom fod sbectols amddiffyn llygaid ar gael ar gyfer y gweithredwr golau pwls dwys a'r claf. Heb reolau lleol ar waith, ni allem gael ein sicrhau bod y rhain yn benodol i gryfder y peiriant golau pwls dwys. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectols yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael eu trin ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch a gymerir wrth gynnal triniaeth. Dywedodd wrthym fod y drws ar gau pan fydd triniaethau'n cael eu darparu. Ni ddefnyddir arwydd rhybudd gan fod y staff yn gwybod na allant fynd i mewn pan fydd y drws ar gau. Nid oedd gan yr ystafell driniaeth glo ar y drws i atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn. Dywedwyd wrthym fod allwedd y peiriant golau pwls dwys yn cael ei dynnu pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i atal defnydd anawdurdodedig.

Yn dilyn yr arolygiad, mae lluniau wedi'u cyflwyno yn dangos bod clo ar y drws a bod hysbysiad wedi'i osod yn hysbysu unrhyw un pan fydd triniaethau golau pwls

---

[3] Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices

[4] Hyfforddiant ar y gofynion sylfaenol ar gyfer defnyddio peiriannau laser yn ddiogel.

dwys yn cael eu cynnal. Mae angen i'r mesurau hyn fod ar waith bob amser, ond nid oeddent ar waith ar adeg yr arolygiad.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cynghorydd amddiffyn rhag laserau wedi cwblhau asesiad risg i nodi unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant golau pwls dwys ac amgylchedd yr ystafell driniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru ei hyfforddiant Craidd Gwybodaeth, anfon tystiolaeth o'r dystysgrif i AGIC, a sicrhau bod y dystysgrif gyfredol ar gael yn y salon.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod contract â chynghorydd amddiffyn rhag laserau ar waith a'i fod yn parhau hyd nes y bydd Sultans Hair & Beauty Salon yn rhoi'r gorau i ddarparu triniaethau golau pwls dwys.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr asesiad risg a gwblhawyd gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn cael ei adolygu a bod unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu cwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rheolau lleol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn unol ag amodau'r cofrestriad.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ganfod bod systemau cyfyngedig ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedwyd wrthym y gall claf adael adborth trwy ddulliau cyfryngau cymdeithasol, os yw am wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwr erioed wedi cael unrhyw adborth ynghylch gwasanaethau golau pwls dwys.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw asesiadau risg na pholisi rheoli risg ar waith i helpu i ddiogelu iechyd, lles a diogelwch y cleifion ac eraill a oedd yn ymweld â'r clinig.

Yn dilyn yr ymweliad, darparwyd asesiad risg. Roedd y ddogfen yn ddyddiedig Ionawr 2022. Mae rhestr o gamau gweithredu yn y ddogfen – er enghraifft, y bydd profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn flynyddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi'i chofnodi i ddangos pryd y cawsant eu cwblhau ddiwethaf a phryd y bydd angen eu cynnal nesaf. Yn ogystal, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod y gwiriadau hyn yn digwydd yn flynyddol.

Argymhellir bod yr asesiad risg yn cael ei ddiweddaru i ddangos tystiolaeth glir pan fydd camau gweithredu wedi'u cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith a fydd yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithredu polisi rheoli risg.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r asesiad risg i ddangos yn glir pryd y mae camau gweithredu wedi'u cwblhau neu erbyn pryd y mae angen cymryd y camau hynny.

## Rheoli cofnodion

Gwelsom fod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur cleifion yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo i atal mynediad heb awdurdod.

Mae angen rhywfaint o welliant i sicrhau bod nodiadau cleifion yn fwy manwl. Mae'r rhain yn cynnwys ychwanegu canlyniadau a manylion y prawf clytiau a gwybodaeth am wallt a chroen. O'r pum nodyn claf y gwnaethom eu hadolygu, roedd llofnod y gweithredwr golau pwls dwys a/neu ddyddiad ar goll yn yr adran gydsynio mewn pedwar o'r cofnodion.

Nid oedd cofrestr triniaethau cleifion ar waith. Ar adeg yr ymweliad, gwelwyd ffurflen wag y dylid ei defnyddio fel y gofrestr driniaeth a hysbyswyd y rheolwr am roi hon ar waith.

Yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom nad oedd yr holl wybodaeth a ddylai fod ar waith i gefnogi'r gwasanaeth i ddarparu gofal cleifion o ansawdd ar gael. Mae'r bylchau hyn yn doriad difrifol o'r rheoliadau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella cofnodion cleifion trwy gofnodi'r holl wybodaeth ar y cofnod, gan gynnwys prawf clytiau a'r math o wallt a chroen, ynghyd â sicrhau bod pob maes wedi'i lofnodi a'i ddyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithredu cofrestr triniaethau cleifion a chofnodi'r holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Er y dywedodd y rheolwr cofrestredig ei bod wedi bod yn darparu triniaethau golau pwls dwys ers blynyddoedd lawer, canfuom nad oedd unrhyw beth ar gael i ddangos y sgiliau a gwybodaeth gyfredol. Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant neu roedd wedi dod i ben ac roedd angen ei ddiweddaru.

Ni chafodd unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eu cyflwyno ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai unrhyw gwynion a dderbynnir yn cael sylw, ond yn absenoldeb gweithdrefn, ni allem gael ein sicrhau y gellid ymateb i unrhyw bryder neu gŵyn yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae ein canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn dod i'r casgliad nad oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran y rheoliadau ac mae hyn felly yn dynodi gwaith rheoli a llywodraethu gwael o'r gwasanaeth golau pwls dwys.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Sultans Hair & Beauty Salon yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, a hi yw'r unig weithredwr golau pwls dwys.

Gwelsom nad oedd unrhyw bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar adeg ein hymweliad. Mae'r rheoliadau'n rhestru'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae angen iddynt fod ar waith gan y gwasanaeth. Felly, rydym yn argymell bod y rheolwr yn adolygu'r rheoliadau, yn drafftio'r dogfennau gofynnol, ac yn sicrhau eu bod ar gael yn y gwasanaeth ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol i amddiffyn y clinig rhag hawliadau digolledu a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Gwnaethom ofyn i'r dystysgrif electronig a ddangoswyd ar ddiwrnod yr arolygiad gael ei hargraffu a'i harddangos yn y lleoliad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddrafftio'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol a restrir yn y rheoliadau. Rhaid iddynt fod yn hygyrch yn y gwasanaeth a chael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod y dystysgrif yswiriant atebolrwydd yn cael ei harddangos yn y gwasanaeth.

## Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Nid oedd gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Dywedodd y rheolwr y byddai unrhyw gwynion yn cael sylw, ond ni ddarparwyd unrhyw amserlenni ar gyfer ymdrin â'r rhain. Dywedodd y rheolwr wrthym na dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch y gwasanaethau golau pwls dwys.

Darparodd y rheolwr lyfr nodiadau gwag a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel cofnod i gofnodi unrhyw gwynion a phryderon ffurfiol neu anffurfiol.

Rydym yn argymell bod gweithdrefn gwyno yn cael ei drafftio a'i bod yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi a gweithdrefn gwyno ar waith sy'n cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Y rheolwr cofrestredig yw unig weithredwr y peiriant golau pwls dwys. Roedd tystysgrif Craidd Gwybodaeth a arddangoswyd yn yr ystafell driniaeth yn ddyddiedig Hydref 2013. Rydym yn argymell bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddiweddaru bob pum mlynedd ac felly mae angen ei gwblhau ar frys i sicrhau bod gan y rheolwr y sgiliau a gwybodaeth ddiweddaraf.

Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod wedi cael hyfforddiant ar y system golau pwls dwys, ond nid oedd unrhyw dystysgrif na gwaith papur i ddangos hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Wedyn, yn dilyn ein hymweliad, anfonwyd e-bost dyddiedig 24 Mawrth 2022 atom gan wneuthurwr y peiriant golau pwls dwys yn nodi y

dangoswyd i Sultans sut i ddefnyddio'r peiriant yn 2014. Mae angen cadw'r wybodaeth hon ar y safle fel tystiolaeth o gymhwysedd y rheolwr cofrestredig i ddefnyddio'r peiriant.

Nid oedd rhaglen hyfforddi ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn cynnal ei sgiliau a'i gwybodaeth. Rydym yn argymell bod y rheolwr yn diweddaru ei holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys diogelu, ac yn cadw cofnod o ba bryd y bydd angen diweddaru'r cyrsiau hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau cyfres o hyfforddiant, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant diogelu, i sicrhau'r sgiliau a gwybodaeth ddiweddaraf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu a chynnal cofnod o ba bryd y cynhaliwyd yr hyfforddiant a phryd y mae angen ei adnewyddu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw'r dystiolaeth gan y gwneuthurwr sy'n cadarnhau bod hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys wedi'i gwblhau. Mae angen i’r wybodaeth hon fod ar gael yn y safle ac ar gael i'w harchwilio.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedwyd wrthym fod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i fodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cleifion gael eu hamddiffyn rhag risgiau gofal a thriniaeth amhriodol neu anniogel.

Nid oedd y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig anfon copi o'r dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd at AGIC fel y gofynnwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth i fonitro cydymffurfedd â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes argymhelliad penodol wedi'i wneud o ran hyn, y disgwyl yw y bydd tystiolaeth o welliant nodedig ar adeg yr arolygiad nesaf.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n briodol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i’r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio’r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwelsom nad oedd unrhyw ddogfennau, neu fod dogfennau cyfyngedig, ar gael i'w hadolygu ar ddiwrnod yr arolygiad. | Roedd hyn yn golygu y gwelsom nad oedd gan y gwasanaeth systemau digonol ar waith i ddangos ei fod yn darparu gofal diogel a dibynadwy ac nad oedd yn bodloni'r safonau a rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig. | Codwyd y pryder hwn gyda'r rheolwr cofrestredig ar y pryd. Gofynnwyd bod rhestr o'r holl ddogfennau y mae eu hangen ar AGIC yn cael ei hanfon dros yr e-bost er mwyn iddi allu eu cael. | Anfonwyd rhestr o'r dogfennau sydd eu hangen a darparwyd rhywfaint o wybodaeth ar ôl yr ymweliad arolygu. |

## Atodiad B – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Sultans Hair & Beauty Salon

### Dyddiad yr arolygiad: 14 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth hanes meddygol bob amser yn cael ei dogfennu a'i llofnodi gan y claf a'r gweithredwr golau pwls dwys ym mhob apwyntiad. | Rheoliad 23 (1)(a)(i)(ii) a (3)(a) | Ar gyfer triniaethau yn y dyfodol, byddaf yn sicrhau fy mod i a'r claf yn llofnodi yn ystod pob apwyntiad. | Nihayat Maulud | Bydd yn digwydd ar gyfer triniaethau yn y dyfodol |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddrafftio datganiad o ddiben. Mae angen i'r ddogfen gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau a bod ar gael i'r cleifion. | Rheoliad 6(1) a (2)<br>Rheoliad 8 (a) | Mae'n barod ac wedi'i ddiweddaru ac mae hefyd ar gael i'r cleifion gan ei fod yn yr ystafell driniaeth golau pwls dwys. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau pa ganllaw i gleifion sy'n cael ei ddefnyddio a'i ddarparu i'r cleifion. | Rheoliad 7 (2) | Mae gennyf ganllaw i gleifion ac mae ar gael i'r cleientiaid. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prawf clytiau a'r math o wallt a chroen wedi'u dogfennu'n glir ar nodiadau'r cleifion. | Rheoliad 23 (1)(a)(i)(ii) a (3)(a) | Cynhelir profion clytiau bob amser cyn triniaethau a bydd y canlyniad yn cael ei nodi yn nodiadau'r claf. | Nihayat Maulud | Bydd yn cael ei wneud ar gyfer pob claf |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth a'u hôl-ofal er mwyn sicrhau y gellir rheoli unrhyw adweithiau niweidiol ac er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o driniaeth y cleifion. | Rheoliad 15 (1) (a)(b)(c) | Yn ogystal â chynghori'r cleientiaid wyneb yn wyneb, mae taflen ymlaen llaw drwy'r post ar gael gyda gwybodaeth hanfodol ac mae'n cael ei rhoi i'r cleientiaid er mwyn sicrhau triniaethau diogel a'r canlyniadau gorau. | Nihayat Maulud | Mae'n barod a bydd yn cael ei rhoi i'r cleientiaid. Mae'r rhan fwyaf o'r cleientiaid yn tynnu llun ohoni ar eu ffôn. |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddrafftio polisïau a gweithdrefnau i ddangos sut mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo o fewn y sefydliad a sut mae'r cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu. | Rheoliad 9 (1)<br>Rheoliad 18 (1)(b) | Mae gennyf bolisi a gweithdrefn ar waith a byddaf yn eu diwygio a'u diweddaru yn unol â hynny. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd ac ar gael |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried diweddaru ei gwefan gyda gwybodaeth am sut y gall y cleifion gael mynediad at wasanaethau yn y | Rheoliad 15 (1) (a) | Mae gan Sultans dudalen Facebook boblogaidd, “Sultans Hair & Beauty”, gyda'r holl wybodaeth ar gael ar sut i | Nihayat Maulud | Cwblhawyd ac ar gael |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| salon a'u defnyddio, a ddylai gynnwys mynediad i'r adeilad. | | ddod o hyd i ni, trefnu apwyntiad, a rhestr brisiau ar gyfer llawer o driniaethau. Mae'n well gan y cleientiaid ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel tudalennau Facebook ac Instagram. | | |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o gael adborth am y gwasanaethau golau pwls dwys a ddarperir er mwyn pennu beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallai fod angen ei wella. | Rheoliad 19 (2)(b)(i) | Fel arfer, mae'r cleientiaid yn gadael adborth ar ein tudalen Facebook ynglŷn â'u profiad yn ystod eu triniaeth. Hefyd, rwy'n gyfeillgar iawn gyda fy nghleientiaid. Maent yn tueddu i siarad â mi a rhoi adborth i mi yn ystod triniaethau. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi blwch “adborth dienw” yn yr ystafell golau pwls dwys gyda phapur a beiro wrth ei ymyl, fel y gall y cleientiaid ei lenwi a'i roi yn y bocs pan fyddant ar eu pen eu hunain i newid dillad ac ati. | Nihayat Maulud | Ar waith |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r rheolwr cofrestredig wella'r trefniadau diogelwch tân yn y safle. Mae angen gosod arwyddion allanfa dân, mae angen gwasanaethu diffoddwyr tân i sicrhau eu bod | Rheoliad 26 (4)(a)(b)(c)(d)(e)(f) | Mae arwyddion tân wedi'u hongian yn glir. Mae diffoddwyr tân newydd wedi cael eu prynu a byddant yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol. Hefyd yr | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| yn addas i'w defnyddio, a dylid trefnu ymarferion tân i sicrhau bod y staff a'r ymwelwyr yn gallu gadael yr adeilad yn ddiogel os bydd tân. | | adeilad mewn un llawr ac ar y llawr daear. Os bydd tân, bydd y staff yn arwain y cleientiaid i'r tu allan ar unwaith. Mae hefyd gennym synwyryddion tân/mwg yn yr adeilad sydd wedi pasio profion ac yn gweithio'n llawn. Pe bai tân yn yr adeilad, dyna fyddai'r rhybudd cyntaf. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg tân i sicrhau bod dyddiad ar y ddogfen. Rhaid darparu tystiolaeth o gamau gweithredu a gofnodir yn y ddogfen a'u cadw ar y safle. | Rheoliad 19 (1)(a)(b) | Mae wedi'i wirio a'i ddiweddaru. Mae'r gweithwyr yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd bod angen iddynt ofyn ar unwaith i'w cleientiaid adael yr adeilad gyda nhw trwy ddrws yr allanfa dân. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar trydanol a ddefnyddir yn y salon wedi'i wirio a'i fod mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio. | Rheoliad 26 (2)(a) | Cynhelir profion dyfeisiau cludadwy yn flynyddol<br><br>ac mae'r dyfeisiau wedi pasio. Mae tystysgrif ar gael. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cwblhau cwrs cymorth cyntaf. | Rheoliad 20 (1)(a) | Mae gen i becyn cymorth cyntaf yn y salon ac rydw i wedi hyfforddi fy hun ar sut i'w ddefnyddio o fideos ar YouTube. | Nihayat Maulud | Ymhen dau fis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Fodd bynnag, os yw'n wirioneddol hanfodol gwneud y cwrs, byddaf yn ei drefnu yn y dyfodol agos. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig baratoi a gweithredu polisi rheoli heintiau sy'n dogfennu'n glir yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Rheoliad 9 (n) | Mae ar waith. Rwyf wedi cwmpasu atal heintiau sy'n berthnasol i'm triniaethau golau pwls dwys. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig roi amserlen lanhau ar waith a fydd yn rhoi tystiolaeth o'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a ddilynir a'u cefnogi. | Rheoliad 9 (n) a Rheoliad 15 (3) a (4) | Cynhelir gwaith cadw tŷ ar gyfer y salon cyfan ar ddechau a diwedd pob dydd. Mae llwch yn cael ei lanhau, mae'r lloriau'n cael eu mopio, mae'r peiriant yn cael ei sychu. Hefyd, gosodir meinwe newydd ar y gwely ar ôl pob cleient. Ar ôl pob cleient, mae'r darn llaw yn cael ei sychu. Mae hylif diheintio dwylo a hancesi ar gael i'r claf a minnau. Mae'r ystafell yn glinigol ac yn lân heb ormod o gynhyrchion. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod ganddi hyfforddiant diogelu cyfredol. | Rheoliad 16 (3)(a) a Rheoliad 20 (a) | Mae'r polisi a hyfforddiant diogelu yn gyfredol ac ar waith. Rydym bob amser yn darparu amgylchedd diogel a hapus yn ein salon/clinig. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisi diogelu a chynnwys manylion y tîm diogelu lleol a dyddiadau cyhoeddi ac adolygu'r polisi. | Rheoliad 9 (e) a Rheoliad 16 (3)(a) | Rwy'n cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn defnyddwyr y gwasanaeth rhag niwed, gwahaniaethu a thriniaeth ddiraddiol. Rwyf bob amser yn cyflogi staff â chefndir glân sydd hefyd â chymeriad cyfeillgar, ynghyd â phrofiad da. Er mai dim ond fi fy hun sy'n cynnal triniaethau golau pwls dwys, mae angen amgylchedd y salon cyfan i fod yn ddiogel ac yn ddigynnwrf. Mae'r polisi diogelu yn cael ei ddiweddaru. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon copi o'r dystysgrif ar ôl i'r peiriant golau pwls dwys gael ei wasanaethu. | Rheoliad 15 (2) | Mae'r peiriant yn cael ei wasanaethu'n flynyddol ac mae'r dystysgrif wedi'i hanfon at AGIC. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru ei hyfforddiant Craidd Gwybodaeth, anfon tystiolaeth o'r dystysgrif i AGIC, a sicrhau bod y dystysgrif gyfredol ar gael yn y salon. | Rheoliad 20 (1)(a) | Rwyf wedi mynd drosodd ac ail-astudio'r holl lyfrynnau gwybodaeth a roddwyd i mi yn ystod fy nghwrs hyfforddi ar olau pwls dwys. Rwyf wedi gwneud hyn â llaw yn hytrach na chwrs ar-lein gan ei fod i gyd ar gael i mi. Byddaf yn rhannu llyfryn gwybodaeth y cwrs ag AGIC, sy'n | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | fanwl iawn, ac mae'n caniatáu ichi adeiladu ar eich gwybodaeth. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith a fydd yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Rheoliad 19 (1)(a)(b) (2)(a)(b)(i)(ii)(iv)(v) (c)(i)(ii) (d) (e) (3) (4) (5) | Rwyf wedi hongian poster yn yr ystafell golau pwls dwys gyda manylion AGIC lle mae'n nodi y gall y cleient gysylltu â'r asiantaeth os yw'n anhapus â'r gwasanaeth neu'r driniaeth a roddwyd. Yn ystod triniaethau, gofynnir yn aml i'r cleifion a ydynt yn teimlo'n gyfforddus ac i rannu unrhyw anghysur. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithredu polisi rheoli risg. | Rheoliad 9 (1)(e) | Rwyf wedi sefydlu polisi asesu risg ac wedi'i ddiweddaru gyda hanfodion sy'n cwmpasu rheolaeth o fewn yr ystafell driniaeth, hyfforddiant a gwybodaeth ddigonol, cyfarpar diogelu personol, cynnal a chadw, ymgynghori â chleientiaid a chadw cofnodion, ymgynghori â'r cynghorydd amddiffyn rhag laserau ac ati. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r asesiad risg i ddangos yn glir pryd y mae camau gweithredu wedi'u cwblhau neu erbyn pryd y mae angen cymryd y camau hynny. | Rheoliad 19 (1) (a)(b) | Rwyf wedi cymryd camau ar yr asesiad risg megis rhoi clo ar y drws o'r tu mewn a chadw cofnodion cleientiaid mewn locer gydag allwedd. Yn yr un locer, cedwir allwedd y peiriant pan gaiff ei thynnu oddi ar y peiriant ar ôl pob triniaeth. Mae gan y peiriant ddau bâr o goglau mewn cyflwr gwych, ac mae'r peiriant yn cael ei wasanaethu'n flynyddol yn ogystal â bod yn destun prawf dyfeisiau cludadwy yn flynyddol. Mae tystiolaeth o'r holl gamau hyn a gymerwyd a mwy wedi'i hanfon at AGIC. Rwyf wedi cofrestru gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau ac mae gennyf brotocol triniaeth ar waith. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella cofnodion cleifion trwy gofnodi'r holl wybodaeth ar y cofnod, gan gynnwys prawf clytiau a’r math o wallt a chroen, ynghyd â sicrhau bod pob maes wedi'i lofnodi a'i ddyddio. | Rheoliad 23 (1) (a)(i) | Cafodd hyn ei wneud yn flaenorol ond bydd yn cael ei wneud yn well ac yn fwy manwl yn ystod triniaethau yn y dyfodol. Mae gen i ddigon o ffurflenni ymgynghori yn barod, a fydd yn cael eu | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | llofnodi gennyf i a'r claf yn ystod pob triniaeth. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithredu cofrestr triniaethau cleifion a chofnodi'r holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Rheoliad 45 (2)(a)(b)(c) | Mae gennyf dempled ar waith y dywedwyd wrthyf yn ystod yr arolygiad y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer cofrestru. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddrafftio'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol a restrir yn y rheoliadau. Rhaid iddynt fod yn hygyrch yn y gwasanaeth a chael eu hadolygu'n rheolaidd. | Rheoliad 9 (a-o) | Mae’r rhain ar gael ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dim ond yr hyn sy'n berthnasol i'm gwasanaeth yr wyf wedi'i gymhwyso, ac rwyf wedi gwneud newid i'r adran rheoli heintiau oherwydd ei bod yn wag o'r blaen. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod y dystysgrif yswiriant atebolrwydd yn cael ei harddangos yn y gwasanaeth. | Rheoliad 15 (1)(c) | Rwyf wedi arddangos y dystysgrif yswiriant atebolrwydd yn y gwasanaeth. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi a gweithdrefn gwyno ar waith sy'n cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Rheoliad 9 (1)(e)(f)(g) | Mae gennyf lyfr lle byddwn yn cofnodi unrhyw gwynion a wneir i mi fy hun neu ar dudalen y salon ynghylch triniaethau golau pwls dwys gyda dyddiadau a'r driniaeth y cwynir amdani. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid wyf wedi cofrestru | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | unrhyw gwynion gan nad wyf wedi cael rhai. Gall y cleifion wneud cwyn yn uniongyrchol i mi fy hun gan fy mod yn gyfeillgar i'm cleientiaid ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â mi, drwy'r dudalen Facebook, drwy adael nodyn a'i roi yn y blwch dienw yn yr ystafell driniaeth golau pwls dwys, neu drwy gysylltu ag AGIC, y mae ei manylion yn cael eu harddangos yn yr ystafell golau pwls dwys ar boster. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau cyfres o hyfforddiant, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant diogelu, i sicrhau'r sgiliau a gwybodaeth ddiweddaraf. | Rheoliad 20 (1)(a) | Rwyf wedi astudio'r nodiadau a ddarparwyd i mi o'r cwrs hyfforddi ar olau pwls dwys a gynhaliais. Mae'r triniaethau'n eithaf syml, gan drin rhai mathau o groen yn unig ar gyfer triniaethau cael gwared â gwallt ac adnewyddu croen. Rwy'n teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus wrth gyflawni'r triniaethau a minnau bellach wedi ail-adolygu'r nodiadau hyn, sy'n seiliedig yn llwyr ar fy nghyfrifoldebau a'm rolau. Mae'n cyfateb i'r cwrs Craidd Gwybodaeth ar-lein os nad yn fwy. Fodd | Nihayat Maulud | Craidd Gwybodaeth 01/06/2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | bynnag, os oes angen y cwrs Craidd Gwybodaeth arnoch o hyd, byddaf yn anelu at ei orffen erbyn 1 Mehefin. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod contract â chynghorydd amddiffyn rhag laserau ar waith a'i fod yn parhau hyd nes y bydd Sultans Hair & Beauty Salon yn rhoi'r gorau i ddarparu triniaethau golau pwls dwys. | Rheoliad 15(1)(b) (c) a Rheoliad 45 (1) | Mae gennyf gontract gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau ar waith a byddaf yn sicrhau ei fod yn parhau. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr asesiad risg a gwblhawyd gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn cael ei adolygu a bod unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu cwblhau. | Rheoliad 15 (1)(b) a (10) | Ydw, rwyf wedi adolygu'r asesiad ac wedi gwella unrhyw bryderon a godwyd ac wedi anfon y gwelliannau at AGIC. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rheolau lleol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn unol ag amodau'r cofrestriad. | Rheoliad 45 (3)(b) | Mae gennyf reolau lleol ar waith a byddaf mewn cysylltiad yn gyson â'r cynghorydd amddiffyn rhag laserau i'w hadolygu'n flynyddol. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu a chynnal cofnod o ba bryd y cynhaliwyd yr | Rheoliad 20 (1)(a) | Pan brynais y peiriant am y tro cyntaf yn 2014, cefais hyfforddiant gan y cwmni ac rwyf wedi bod yn defnyddio'r peiriant | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| hyfforddiant a phryd y mae angen ei adnewyddu. | | yr un ffordd ers hynny. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud gyda'r peiriant na'r triniaethau, felly nid oedd angen unrhyw hyfforddiant pellach. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw'r dystiolaeth gan y gwneuthurwr sy'n cadarnhau bod hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys wedi'i gwblhau. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael yn y safle ac ar gael i'w harchwilio. | Rheoliad 45 (3)(a)(b)(c)(d)(e) | Anfonais yr e-bost a ddarparwyd gan y gwneuthurwr ymlaen at AGIC. Dangoswyd sut mae'r peiriant yn gweithio i mi yn ystod y broses brynu. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig anfon copi o'r dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd at AGIC fel y gofynnwyd ar ddiwrnod yr arolygiad. | Rheoliad 21 (2)(a) | Byddaf yn darparu'r dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr oeddwn wedi'i chynnal ychydig flynyddoedd yn ôl. Nid esboniwyd a oedd angen i mi gael gwiriad newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob blwyddyn. Os bydd angen ei wneud, bydd yn barod erbyn 01/06/2022. | Nihayat Maulud | Cwblhawyd neu dystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd erbyn 01/06/2022 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Nihayat Maulud**

**Swydd: Goruchwyliwr Golau Pwls Dwys**

**Dyddiad: 21/04/2022**